



## **Eisteddfod Rhithiol Ysgol Bro Ogwr 2021**

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Eleni, rydym yn bwriadu cynnal Eisteddfod Rhithiol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Fe fydd yna gystadlaethau perfformio a chystadlaethau gwaith cartref felly rhywbeth i bawb. Rydyn ni hefyd yn eich annog chi fel teulu i gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Deuluol hefyd.

Isod mae yna restr testunau. Fe fydd yr athrawon dosbarth yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â'r testunau ysgrifennu, canu a llefaru. Cyflwynir tystysgrifau i waith cartref a pherfformiadau sy'n dod yn gyntaf, ail a thrydydd ym mhob blwyddyn ac ymh mhob categori.

Os hoffech cymryd rhan a chystadlu, gofynnwn i chi lanlwytho'r gwaith neu ffotograffiau o'r gwaith yn y ffordd arferol.

### **Dyddiad Cau i Dderbyn y gwaith a'r perfformiadau yw Dydd Mercher, Chwefror 24ain am 12yp**

#### **Canu BI 1-6**

Fe fydd athrawon blwyddyn yn rhoi mwy o fanylion i chi.

#### **Llefaru BI 1-6**

Fe fydd yr athrawon blwyddyn yn rhoi mwy o fanylion i chi

#### **Dawnsio Meithrin – BI6**

Dewisiwch eich genre eich hunan – dawnsio gwerin, hip hop, ballroom, ballet, tap a.y.b

#### **Rheolau:**

Cerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol yn unig

Dawns i bara dim mwy na 90 eiliad

#### **Offerynnol BI 2-6**

Darn hunan ddewis

Perfformiad i bara dim mwy na 90 eiliad

#### **Ysgrifennu**

BI 3, 4 a 5. Fe fydd athrawon blwyddyn yn rhoi mwy o fanylion i chi

BI 1-6 – Llawysgrifen. Fe fydd athrawon dosbarth yn rhoi mwy o fanylion i chi

#### **Celf 2D Meithrin – BI6**

Darn o waith celf. 2D ar y testun Cartref a Theulu

### **Celf 3D Meithrin – B16**

Model neu darn o gelf 3D ar y testun Cartref a Theulu

### **Celf Graffeg Meithrin – B16**

Defnyddio rhaglen gelf digidol i greu darn o waith ar y testun Cartref a Theulu

### **Perfformiad Teuluol – Meithrin – B16 (ac oedolion)**

Rheolau

Gall brodyr a chwirydd gystadlu gyda'i gilydd

Gall oedolion y teulu ymuno.

Fe gewch chi ganu, llefaru, dawnsio neu gwneud perfformiad offerynnol.

Rhaid i'r llefaru a'r canu fod yn Gymraeg

Rhaid i chi ddawnsio i gân Gymraeg neu gerddoriaeth offerynnol.

**Pob lwc ac edrychwn ymlaen at weld eich gwaith a'ch perfformiadau.**